# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dydd Iau, 13 Rhagfyr 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd G.B. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
K.V. Broom (In place of S.J.G. Gilasbey), C.A. Davies, W.R.A. Davies, H.L. Davies, B.W. Jones, G.B. Thomas and A.Vaughan Owen

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr L.D. Evans, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Tai
P. Hughes-Griffiths, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
D.M. Jenkins, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
I. Jones, Pennaeth Hamdden
L. Quelch, Y Pennaeth Cynllunio
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel Dros Dro
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
H. Morgan, Rhelowr Datblygu Economaidd
S. Walters, Rheolwr Datblygu Economaidd
S. Sauro, Rhelowr Perfformiad, Dadansoddi a Systemau
J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr
S. Charles, Rheolwr Strategaeth a Seilwaith Trafnidiaeth
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Laimann, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthyol

**Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin - 2.00  - 3.20 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D.Cundy, S. Davies, J. Gilasbey, H.I. Jones a H. Shepardson.

## 2. DECLARATIONS OF PERSONAL INTERESTS INCLUDING ANY PARTY WHIPS ISSUED IN RELATION TO ANY AGENDA ITEM

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| A. Vaughan Owen | Eitem 4 - Ymgynghori ynghylch Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2019/20 i 2021/22 | Deiliad Trwydded ar gyfer Neuadd Chwaraeon y Gwendraeth |

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

## 4. YMGYNGHORI YNGHYLCH STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2019/20 TAN 2021/22

(NODER: Roedd y Cynghorydd A. Davies wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2019/20 i 2021/22 (Atodiad A) a oedd wedi ei chymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol at ddibenion ymgynghori yn ei gyfarfod ar 19 Tachwedd 2018. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r sefyllfa bresennol i'r Aelodau ynghylch y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2019/2020, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2020/2021 a 2021/2022. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar ragamcanion gwariant y swyddogion, gan ystyried y setliad amodol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 9 Hydref 2018.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol er bod y setliad dros dro a gyhoeddwyd yn cynrychioli gostyngiad o 0.3% ar gyfartaledd ledled Cymru ar setliad 18/19, mae'r effaith ar Sir Gaerfyrddin, ar ôl cymryd i ystyriaeth ffactorau megis talu cost y dyfarniad cyflog athrawon a chymhwysedd o ran prydau ysgol am ddim, yn ostyngiad o 0.5%, sy'n cyfateb i £1.873m.

Gan grynhoi, byddai'r cynigion ar gyfer y gyllideb yn darparu'r £28 miliwn o arbedion a nodwyd dros gyfnod y cynllun. At hynny, roedd cynigion y gyllideb yn tybio cynnydd yn y Dreth Gyngor o 4.89% ar gyfer 2019/20.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol hefyd yn dilyn cyhoeddi cynigion cyllideb y Cyngor ar gyfer ymgynghori, fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £13m yn ychwanegol i ychwanegu at y Grant Cynnal Refeniw Cymru ar gyfer 2019/20. Er bod manylion penodol am y cyhoeddiad eto i ddod i law, amcangyfrifwyd y byddai effaith hyn ar Sir Gaerfyrddin yn golygu gostyngiad yn y diffyg ariannol a ragwelwyd o 0.5% i 0.3% dros gyfnod setliad 18/19. Yn ogystal, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi grant ychwanegol o £7.5m ledled Cymru i ariannu dyfarniad cyflog yr athrawon yn rhannol; Fodd bynnag, yr oedd hyn ar gyfer un flwyddyn yn unig.

Ystyriodd y Pwyllgor felly'r wybodaeth gyllidebol fanwl ganlynol a oedd wedi'i hatodi i'r Strategaeth ac a oedd yn berthnasol i'w faes gorchwyl:

- **Atodiad A(i)** – Crynodeb o'r arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y meysydd Adfywio, Hamdden, Cynllunio a Gwasanaethau Tai heblaw'r Cyfrif Refeniw Tai;
- **Atodiad A(ii)** – Crynodeb o'r Pwysau Twf ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio (dim un ar gyfer y meysydd Adfywio, Hamdden a Gwasanaethau Tai heblaw'r Cyfrif Refeniw Tai;
- **Atodiad B –** Y rhannu o'r gyllideb sy'n ymwneud â meysydd Adfywio, Hamdden, Cynllunio a Gwasanaethau Tai heblaw'r Cyfrif Refeniw Tai;
- **Atodiad C** – Crynhoad Taliadau ar gyfer y meysydd Adfywio, Hamdden, Cynllunio a Gwasanaethau Tai heblaw'r Cyfrif Refeniw Tai;

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at arbedion effeithlonrwydd y Cyngor ac at y sefyllfa bresennol lle mae ysgolion cynradd yn gyfrifol am ariannu cost gwersi nofio, a oedd yn cael ei dalu yn y gorffennol gan y Gwasanaethau

Hamdden. Roedd ysgolion yn wynebu gostyngiadau yn eu cyllidebau, ac roedd y gost o ddarparu gwersi yn achos pryder i rai, awgrymwyd bod y Bwrdd Gweithredol yn rhoi ystyriaeth i'r posibilrwydd o'r Cyngor yn ariannu'r gost yn uniongyrchol a amcangyfrifwyd yn £150k. Petai hynny'n bosibl, byddai'n helpu gwella lefelau ffitrwydd plant, yn gwella eu diogelwch ger y dŵr wrth eu dysgu i nofio a rhoi sylw i amcanion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Dywedodd y Pennaeth Hamdden o ganlyniad i'r uchod, fod rhai ysgolion wedi lleihau nifer y disgyblion sy'n derbyn gwersi nofio, ac yn bennaf ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2. Aeth ati hefyd i atgoffa'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu gwersi nofio am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol ar gyfer plant o dan 16 mlwydd oed ac roedd yn adolygu'r ddarpariaeth honno ar hyn o bryd.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol y Pwyllgor nad oedd y cynigion presennol yn cynnig cyllideb gytbwys, ac os oedd y cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai'r gost ychwanegol a amcangyfrifwyd yn £150k naill ai yn gorfod dod o ostyngiadau mewn meysydd gwasanaeth eraill neu drwy gynyddu'r dreth gyngor.

- Dywedodd y Pennaeth Hamdden, mewn ymateb i gais am eglurhad ynghylch y diffyg yn y costau gweithredu ar gyfer Canolfan Hamdden Sanclêr a ragwelwyd yn £190k yn 2019/20, fod elfen sylweddol o hyn yn ymwneud â chostau nad oedd modd eu rheoli megis costau corfforaethol, ad-daliadau canolog, ad-dalu benthyciadau cyfalaf i ariannu gwelliannau i'r ganolfan ynghyd â chyfraddau o £36k. Roedd yr adran, yn ymwybodol iawn o'r angen i gynhyrchu incwm/lleihau costau, yn datblygu arfarniadau ynghylch opsiynau ar gyfer y ganolfan gyda golwg ar gynyddu refeniw/cyfraddau cyfranogi a oedd yn cynnwys trafodaethau â'r Cyngor Tref a Chymuned a chlybiau/sefydliadau chwaraeon amrywiol. Fodd bynnag, dylid cydnabod hefyd bod darparu cyfleusterau hamdden mewn ardaloedd gwledig bob amser yn fwy heriol nag ar gyfer ardaloedd trefol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**5.1 Bod yr Ymgynghoriad ynghylch Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2019/20 – 2021/22 yn cael ei dderbyn.**

**5.2 Bod y Crynhoad Taliadau ar gyfer y meysydd Adfywio, Hamdden, Cynllunio a Gwasanaethau Tai heblaw'r Cyfrif Refeniw Tai, fel y manylir yn Atodiad C i'r adroddiad, yn cael ei dderbyn.**

**5.3 Bod y Bwrdd Gweithredol yn rhoi ystyriaeth i ariannu'r gost amcangyfrifedig o £150k i ysgolion cynradd o ddarparu gwersi nofio i ysgolion.**

## 5. CYNLLUN BUSNES DRAFFT ADRAN CYMUNEDAU 2019/20 - 2022

Ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Busnes Drafft 2019/20 – 2022 yr Adran Cymunedau mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny sydd o fewn ei faes gorchwyl h.y. Gwasanaethau Tai a Gwasanaethau Hamdden. Nodwyd y byddai rhagor o waith yn cael ei wneud ar y drafft ar gyfer ei gwblhau erbyn Ebrill 2019.

Rhoddwyd sylw i'r materion/cwestiynau canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Cyfeiriwyd at uchelgais y Cyngor o fod yn 'ganolbwynt beicio Cymru'. Er bod y ddarpariaeth bresennol o ran beicio ar y ffordd yn cael ei groesawu, gan gynnwys Llwybr Beicio Dyffryn Tywi, Felodrom Caerfyrddin a'r gylchffordd gaeedig genedlaethol ym Mhen-bre, ceisiwyd cael eglurhad ynghylch a oedd y Strategaeth Feicio yn cynnwys darpariaeth ar gyfer beicio oddi ar y ffordd, er enghraifft, yng nghoedwig Brechfa.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden fod y strategaeth yn darparu ar gyfer pob math o ddisgyblaethau beicio, gan gynnwys beicio oddi ar y ffordd a bod cyfarfod wedi cael ei gynnal yn ddiweddar gyda Beicio Cymru i drafod y ddarpariaeth honno mewn lleoliadau amrywiol. Roedd y rhain yn cynnwys tir ym mherchnogaeth y Cyngor ym Mharc Gwledig Pen-bre a Mynydd Mawr a Choedwig Brechfa, a oedd yn eiddo i Gyfoeth Naturiol Cymru. Roedd Cynllun Teithio Llesol y Cyngor hefyd yn mynd i'r afael â darparu llwybrau beicio fel modd o gysylltu un gymuned â'r llall.

  Cadarnhaodd y Rheolwr Strategaeth Drafnidiaeth a Seilwaith y byddai'r Cyngor yn cydgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru a phartïon eraill â diddordeb ar y seilwaith beicio ledled y sir. Soniodd hefyd ynghylch un o ofynion y Cynllun Teithio Llesol sef gofyniad ar y Cyngor i gynhyrchu Map Teithio Rhwydwaith Integredig, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i'w ystyried. Fel rhan o'r Map hwnnw, roedd cynigion yn cael eu hystyried ar gyfer cysylltu llwybrau beicio presennol a'r posibilrwydd o gyflwyno llwybrau newydd a rennir a fyddai'n cysylltu Rhydaman â Cross Hands, a allai olygu defnyddio hen reilffyrdd.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg fod Llywodraeth Cymru wedi gwahodd awdurdodau lleol i gyflwyno ceisiadau am arian o dan nawdd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ar gyfer cynlluniau o fewn eu Cynlluniau Rhwydwaith Integredig. Ar gyfer 2019/20 roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnig £23m i awdurdodau lleol roi cynnig amdano, ar yr amod bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol. Nodwyd hefyd efallai y byddai Llywodraeth Cymru yn rhyddhau arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn.

- Cyfeiriwyd at y ddarpariaeth arlwyo gan Wasanaethau Hamdden yn ei leoliadau niferus e.e. canolfannau hamdden / theatrau a p'un a oedd y gwasanaeth yn dilyn ethos cynaliadwyedd a bwyta'n iach drwy leihau'r defnydd o blastig untro a lleihau bwyd a diod melys.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden fod yr Adran wedi mabwysiadu cyfres o egwyddorion i hyrwyddo cynaliadwyedd a bwyta'n iach gan gynnwys cynnych lleol sy'n gydnaws â'r amgylchedd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Cynllun Busnes Drafft yr Adran Cymunedau ar gyfer 2019/20 - 2022 yn cael ei dderbyn.**

**6. CYNLLUN BUSNES ADRANNOL Y PRIF WEITHREDWR 2019/2022**

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad ar Gynllun Busnes 2018/19 – 2021 Adran y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny sydd o fewn ei faes gorchwyl h.y. Datblygu Economaidd ac Eiddo a Phrosiectau Mawr.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Cadarnhaodd y Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr fod yr holl eiddo a gafodd eu prynu a'u hadnewyddu gan y Cyngor o fewn canol tref Llanelli bellach â thenantiaid, roedd rhai yn cynnwys cyn denantiaid y farchnad a oedd wedi uwchraddio i unedau siop.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Cynllun Busnes Adran y Prif Weithredwr 2019/2022 yn cael ei dderbyn**

**7. CYNLLUN BUSNES ADRANNOL YR AMGYLCHEDD 2019/20 - 2022**

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad ar Gynllun Busnes 2019/20 – 2022 Adran yr Amgylchedd mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny sydd o fewn ei faes gorchwyl h.y. Gwasanaethau Cynllunio gan amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer yr adran dros gyfnod amser y Cynllun.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Cynllun Busnes Adran yr Amgylchedd 2019/20 - 2022 yn cael ei dderbyn.**

**8. CANLLAW DYLUNIO PRIFFYRDD SIR GAERFYRDDIN**

Ystyriodd y Pwyllgor Ganllaw Dylunio Priffyrdd newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin i ddisodli'r canllaw presennol a fabwysiadwyd ym 1997. Nodwyd bod y canllaw newydd yn cynnwys nifer o newidiadau polisi lleol a chenedlaethol, templedi dylunio newydd, fel y nodir yn y Llawlyfr ar gyfer Strydoedd a'r Llawlyfr ar gyfer Strydoedd 2. Roedd yn nodi disgwyliadau'r Awdurdod ar gyfer dylunio seilwaith priffyrdd o ran datblygiadau yn y Sir a'r bwriad oedd darparu canllawiau i ddatblygwyr, dylunwyr a gweithwyr proffesiynol eraill wrth baratoi seilwaith trafnidiaeth ac ymyriadau cysylltiedig sy'n ymwneud ag amrywiaeth eang o ddatblygiadau yn Sir Gaerfyrddin. Roedd hefyd wedi'i gynllunio i gefnogi datblygiad drwy sicrhau bod y broses gynllunio mor esmwyth, tryloyw, cyson a chywir â phosibl drwy ddarparu manylion ynghylch gofynion y Cyngor o ran pob agwedd ar effeithiau posibl y priffyrdd, dyluniad y priffyrdd a chymhwyso canllawiau polisi lleol a chenedlaethol priodol.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad.

- Cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio y byddai'r Canllaw yn cael ei roi ar waith ar unwaith ar ôl ei fabwysiadu gan y Cyngor. Ar ôl hynny, y bwriad oedd i'w ddatblygu yn Ganllawiau Cynllunio Atodol gan ddechrau gydag ymgynghoriad yn ystod Gwanwyn 2019 a'i fabwysiadu yn ystod Hydref 2019, yna ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig ar gyfer 2018-2033.
- Fel rhan o'r drafodaeth ar y canllaw cafwyd sawl cyfeiriad y tu hwnt i gylch gwaith y Pwyllgor ac yn hynny o beth dywedwyd wrth y Pwyllgor:
    - ➢ Mewn perthynas â ffyrdd nad ydynt wedi'u mabwysiadu o fewn y Sir, nid oedd gofyniad deddfwriaethol ar ddatblygwyr i adeiladu ffyrdd i safon fabwysiadu nac i ofyn i'r Awdurdod Priffyrdd Lleol eu mabwysiadu. Er y derbyniwyd bod priffyrdd heb eu mabwysiadu yn achosi anawsterau i berchnogion tai, roedd hwn yn fater sifil iddynt hwy a'u cyfreithwyr i fynd i'r afael ag ef. Nodwyd hefyd bod y mater yn dod o

fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd a oedd wedi cytuno i ysgrifennu at Aelodau'r Cynulliad lleol i ofyn i Lywodraeth Cymru i edrych ar y mater o ffyrdd heb eu mabwysiadu ac i gyflwyno deddfwriaeth i amddiffyn perchenogion cartrefi;

- O ran y ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus, a'r cyhoeddiad diweddar gan ddarparwr bws i dynnu'n ôl o gontract i ddarparu gwasanaethau yn y Sir, cadarnhawyd bod yr Awdurdod wedi gwahodd tendrau ar gyfer y gwasanaeth, ac roedd yr Awdurdod yn aros am ymateb. Nodwyd er ei bod yn anodd darparu gwasanaethau bysiau mewn ardaloedd gwledig am nifer o resymau e.e. amser teithio, amlder, perchnogaeth car a lefel yr adnoddau sydd ar gael i roi cymhorthdal i fysiau mewn ardaloedd gwledig, mae'r awdurdod yn rhagweithiol yn ei ymagwedd at ddarparu llwybrau bysiau ac yn cyflwyno ceisiadau am grantiau lle bynnag y bo'n bosibl, ar gyfer prosiect Bwc-a-Bus er enghraifft;
- Mewn perthynas â darparu pwyntiau gwefru i gerbydau trydan, roedd cais wedi'i gyflwyno ar y cyd â Phartneriaeth Ynni Sir Gâr i gyflogi cydgysylltydd cerbydau trydan i baratoi strategaeth ar gyfer eu darparu ledled y Sir, mewn cysylltiad â phartneriaid y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Roedd ar ffurf drafft ar hyn o bryd, a byddai cael ei chyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd. Cafwyd cyllid yn ddiweddar ar gyfer eu darparu yng Nghaerfyrddin a Chastellnewydd Emlyn a chyn hir yn Llanymddyfri. Roedd cais am grant pellach hefyd yn cael ei baratoi i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru i ariannu'r gost o'u gosod ym meysydd parcio'r cyngor.

## 9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Cafodd y Pwyllgor restr o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 23 Ionawr 2019.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn rhestr o'r eitemau i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor ar 23 Ionawr 2019.**

_________________________ ___________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**